

MYFYRWYR RHYNGWLADOL HAEN 4: POLISI FFIOEDD DYSGU 2020/21

Os ydych yn cofrestru fel myfyriwr rhyngwladol Haen 4 ([gov.uk/tier-4-general-visa](https://www.gov.uk/tier-4-general-visa)) dylech ddarllen a deall y telerau cofrestru a amlinellir isod cyn llofnodi'r ffurflen gofrestru. Mae'n arbennig o bwysig eich bod yn deall eich atebolrwydd a'n polisi ynglŷn â thaliadau ac ad-daliadau.

Os ydych yn Fyfyriwr Rhyngwladol mae swm y ffioedd dysgu y byddwch yn atebol am eu talu yn dibynnu ar eich **statws ffi a lefel** y cwrs rydych yn dymuno ei astudio (Addysg Bellach neu Uwch – gweler Atodiad 1).

Mae'n hanfodol bod pob darpar fyfyriwr Rhyngwladol yn cysylltu â Gwasanaeth Derbyn y Coleg admissions@colegsirgar.ac.uk yn y lle cyntaf er mwyn ceisio cymorth i nodi ei statws ffi.

TALU FFIOEDD

Rhaid i'ch ffioedd dysgu gael eu talu'n llawn naill ai o flaen llaw neu wrth gofrestru. Cewch dalu trwy unrhyw rai o'r ffyrdd canlynol:

Talu o flaen llaw:

- Trosglwyddiad Banc i:

Banc Barclays, Canolfan Fusnes, 16 Stryd Vaughan, Llanelli, SA15 3UE	
Côd Didoli:	20-51-32
Enw'r Cyfrif:	Coleg Sir Gâr
Rhif y Cyfrif:	20189243
IBAN	GB31 BARC 2051 3220 1892 43
SWIFTBIC	BARCGB22

- Cardiau Debyd a Chredyd

Talu wrth Gofrestru

- Gellir derbyn taliad ar ffurf sic Cyfrif Banc y DU neu Gerdyn Debyd neu Gredyd
- Gwnewch yn siŵr fod eich enw a'ch cyfeiriad yn ymddangos yn glir ar y trosglwyddiad neu sic
- Mae'n flin gennym ond ni allwn dderbyn taliadau arian parod dros £200.00

Noder **nad** yw ffioedd dysgu yn cynnwys y canlynol:

- Ffioedd ailsefyll arholiadau
- Llyfrau

- Treuliau ychwanegol yn ymwneud â'r cwrs, h.y. teithiau, dillad neu ddeunyddiau cwrs.

Pe bai gennych unrhyw ymholiadau ynghylch unrhyw rai o'r gweithdrefnau uchod, cysylltwch â'r Uned Dderbyn trwy ffonio 01554 748174 neu anfonwch e-bost i admissions@colegsirgar.ac.uk.

RHOWCH WYBOD I NI AM UNRHYW NEWID

Unwaith eu bod wedi cofrestru gyda'r Coleg rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol sicrhau eu bod yn rhoi gwybod i'r Coleg ar unwaith am unrhyw newidiadau yn eu manylion personol: e.e., cyfeiriad, rhif ffôn cartref, rhif ffôn symudol ac ati, trwy ffonio'r Uned Dderbyn ar 01554 748174 neu anfon e-bost i admissions@colegsirgar.ac.uk

Atodiad 1

TALIADAU FFI OEDD DYSGU A CHOFRESTRU RHYNGWLADOL	
<i>Addysg Uwch Lawn Amser Ryngwladol - Israddedig</i>	
Cwrs	Ffi
HND, Gradd Sylfaen a BSc, BA Blynnyddoedd 1-3	£ 10,000
<i>Addysg Bellach Ryngwladol</i>	
Cwrs	Ffi
Pob cwrs	£ 6,000